# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Rhagfyr 2020

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.45)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr gan y Cadeirydd at Trafnidiaeth Cymru

(Tudalennau 1 - 3)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-26-20- Papur 1 i'w nodi

### 2.2 Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(Tudalennau 4 - 7)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-26-20- Papur 2 i'w nodi

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.3 Llythyr at y Cadeirydd gan Fanc Datblygu Cymru**

(Tudalennau 8 - 10)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-26-20- Papur 3 i'w nodi

## 3 Gweithio o Bell: y Goblygiadau i Gymru - Academyddion

(09.45-10.45) (Tudalennau 11 - 21)

Yr Athro Alan Felstead, Athro Ymchwil, Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Caerdydd

Dr Jane Parry, Ysgol Fusnes Southampton, Prifysgol Southampton

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-26-20- Papur 4: Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## Egwyl (10.45-10.55)

## 4 Gweithio o Bell: y Goblygiadau i Gymru - Busnes

(10.55-11.55)

Dr Llŷr ap Gareth, Uwch Gynghorydd Polisi, Ffederasiwn Busnesau Bach

Paul Slevin, Llywydd, Siambrau Cymru

Ian Price, Cyfarwyddwr Cymru, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.55)

## 6 Preifat

(11.55-12.15)

Ystyried tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
—
Welsh Parliament
**Economy, Infrastructure and Skills Committee**

Eitem 2.1

James Price
Prif Weithredwr
Trafnidiaeth Cymru

30 Tachwedd 2020

Annwyl James,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 18 Tachwedd. Roedd eich tystiolaeth yn ddefnyddiol iawn, ac roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi gonestrwydd eich atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd ganddynt. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weld y manylion ariannol nad oedd modd i chi eu trafod heddiw, pan fyddwch yn gallu eu rhyddhau.

Er inni sôn am y broses o drosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) a'r broses o roi Metro De Cymru ar waith yn ystod y sesiwn dan sylw, mae gan yr Aelodau gwestiynau pellach ar y materion hynny na chawsant amser i'w gofyn. Gan fod y cwestiynau hyn yn weddol dechnegol eu natur, mae'n bosibl ei bod yn well os ydych yn eu hateb mewn llythyr beth bynnag.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd a gawsom gennych ynghylch y ffaith bod y broses o uwchraddio'r Metro eisoes wedi'i hymgorffori, ac ynghylch ffaith y bydd y buddsoddiad arfaethedig yn mynd yn ei flaen o dan y trefniant newydd rhwng Trafnidiaeth Cymru a chwmni Amey Keolis Infrastructure Limited (AKIL).

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth am y telerau ar gyfer trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd, a'r trefniadau ar gyfer eu gweithredu a'u rheoleiddio:

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEIS@senedd.wales
0300 200 6565

1. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi nodi y dylai’r drefn ar gyfer adrodd ar fuddsoddiadau fod mor dryloyw, fan lleiaf, a’r drefn flaenorol o adrodd ar Network Rail, a bod y trosglwyddiad dan sylw yn gyfle i sicrhau mwy o dryloywder. Gyda hyn mewn golwg, a fyddai modd i chi nodi'r trefniadau a roddwyd ar waith er mwyn adrodd ar y buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â Llinellau Craidd y Cymoedd? Byddem yn ddiolchgar pe gallech gynnwys manylion ynghylch y trefniadau ar gyfer:
    - Buddsoddiadau gwella; a
    - Buddsoddiadau cynnal a chadw gweithredol a buddsoddiadau adnewyddu.

2. Yn fwy cyffredinol, a fyddai modd i chi nodi hefyd pa fesurau fydd ar waith i adrodd ar berfformiad gweithredol y llinellau, ac ar weithgareddau AKIL mewn perthynas â'r pwyntiau bwled uchod?

3. Yn ogystal, mae gan yr Aelodau ddiddordeb yn y drefn rheoleiddio ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd. A fyddai modd i chi nodi sut y bydd y llinellau'n cael eu rheoleiddio? Yn benodol, a wnewch chi amlinellu’r rolau y mae AKIL, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, Network Rail a'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn eu chwarae, a sut y bydd y sefydliadau hyn yn rhyngweithio yng nghyd-destun rheoleiddio?

4. Yn olaf, a fyddai modd i chi amlinellu natur y contract disgwyliedig gyda chwmni AKIL? Yn benodol, a fydd y contract hwn yn canolbwyntio ar gyflawni’r prosiect seilwaith, neu a ydych yn disgwyl y bydd AKIL yn gweithredu fel rheolwr seilwaith yn y tymor hir?

Diolch eto am eich amser, a diolch hefyd am eich didwylledd wrth ateb cwestiynau'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Russell George AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sigiliau

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
—
Welsh Parliament
**Economy, Infrastructure and Skills Committee**

Ken Skates AS: Gweinidog yr Economi,
Trafnidiaeth a Gogledd

Lee Waters AS: Diprwy Weinidog yr Economi a
Trafnidiaeth

02 Rhagfyr 2020

Annwyl Ken a Lee,

Diolch am ddod i gyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 25 Tachwedd. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'n fawr eich bod chi a'ch swyddogion wedi rhoi dwy awr o'ch amser y tro hwn. Caniataodd hyn inni gynnwys y nifer sylweddol o faterion sydd wedi codi ers ein sesiwn graffu ddiwethaf ar waith y Gweinidog ym mis Chwefror. Roedd yn sesiwn hynod ddefnyddiol, ac rwy'n ysgrifennu i fynd ar drywydd ychydig o faterion.

**Cynllun Cyflenwi Eiddo Masnachol**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Adroddiad SQW 'Dadansoddiad o'r Farchnad ac Ymyriadau Posibl' dyddiedig Mawrth 2020 ac a gyhoeddwyd ym mis Awst, yn disodli'r Cynllun Datblygu Eiddo ac mai hwnnw yw'r cynllun datblygu eiddo bellach. Roedd gan y Pwyllgor rai pryderon ynghylch yr honiad nad yw effaith y pandemig ers paratoi'r adroddiad hwnnw wedi cael effaith sylweddol ar y rhagdybiaethau a wnaed. Fel y nodwyd yn y cyfarfod, mae'r sefyllfa o ran gormodedd a phrinder gwahanol fathau o eiddo masnachol yn amrywio'n fawr mewn gwahanol rannau o Gymru, ac mae angen cynnwys cynigion gweithio o bell Llywodraeth Cymru hefyd yng nghynlluniau'r dyfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn sylweddoli bod y sefyllfa o ran galw yn y sector preifat yn dal i fod yn gyfnewidiol ac ansicr, a bydd y wybodaeth ddiweddaraf am hyn yn 2021 yn ddefnyddiol i'r pwyllgor olynol. Yn y cyfamser byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael rhagor o fanylion am y costau sydd bellach ynghlwm wrth y cynllun datblygu eiddo, gyda'r bwriad o fynd ar drywydd hyn ymhellach wrth gynnal gwaith craffu ar y gyllideb. Mae hefyd yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am y datblygiadau o ran y cynnig Cyfrwng Datblygu â Chefnogaeth Asedau.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEIS@senedd.wales
0300 200 6565

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi addo gofyn i swyddogion Cyllid anfon rhagor o wybodaeth am yr effaith ar dderbyniadau'r Dreth Trafodiadau Tir a newidiadau mewn gwerth ardrethol o ganlyniad i'r pandemig.

**Datblygu Rhanbarthol - Llywodraethu a Llinellau Atebolrwydd**

Trafodwyd rôl a swyddogaeth yr amrywiol gyrff ac asiantau sy'n ymwneud â chynllunio a chyflawni datblygiad rhanbarthol - y Prif Swyddogion Rhanbarthol, awdurdodau lleol, byrddau Bargeinion Dinesig a Thwf, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol newydd, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr angen am Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol bellach wedi ei adael ar ôl, a bod symudiad enfawr o ran datblygu Cyd-bwyllgorau Crofforaethol. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am ei benderfyniad ynghylch statws y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddogion Rhanbarthol a rhanddeiliaid rhanbarthol.

Gyda'r holl haenau lluosog hyn o wneud penderfyniadau a darparu gweithgareddau gydag adnoddau cyfyngedig, bydd yn bwysig i'r Pwyllgor hwn, a'i olynydd, gael sicrwydd ynghylch cadernid dulliau monitro a gwerthuso canlyniadau, a sicrhau bod yna linellau clir o atebolrwydd a dulliau craffu tryloyw i ddwyn y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni i gyfrif. Bydd y Pwyllgor yn trafod adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar Fuddsoddi Rhanbarthol gyda'i awdur ar 2 Rhagfyr, a bydd yn croesawu'r cyfle hwnnw i glywed ei barn ar y materion llywodraethu hyn.

**Tata Steel**

Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar am ddiweddariad y Gweinidog ar y sefyllfa ond yn bryderus o glywed nad oes perthynas gref â'r Ysgrifennydd Busnes ei hun ar hyn o bryd, er bod y berthynas rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn gryf ac yn adeiladol, ac y cafwyd cysylltiad da a rheolaidd gyda Nadhim Zahawi, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros BEIS ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y berthynas a'r ddeialog hon yn gwella o ystyried yr angen brys i ymateb i gyhoeddiad diweddar Tata a'r goblygiadau i economi a chymunedau Cymru.

**Banc Cymunedol i Gymru**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi addo gofyn i'r corff sy'n gyfrifol am sefydlu'r banc, Cambria Cydfuddiannol Ltd, ddarparu nodyn briffio llawn i'r Pwyllgor ar statws y broses drwyddedu reoleiddiol i sefydlu'r banc, yr amserlenni y maent bellach yn gweithio iddynt, a'u barn ar yr uchelgais wreiddiol o agor 50 o ganghennau ledled Cymru. Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor a allai ddarparu cofnodion cyfarfodydd y mae ef a'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda Cambria Cydfuddiannol Ltd, yn amodol ar unrhyw waith ail-olygu gwybodaeth fasnachol gyfrinachol y gallai fod angen ei wneud.

**Rhaglen brentisiaeth**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi ysgrifennu'n ôl gyda gwybodaeth lawn am y sefyllfa o ran y model rhannu prentisiaeth. Roedd y Pwyllgor yn siomedig yn y diffyg cynnydd gyda'r Adolygiad Fframwaith Prentisiaethau, gan nodi y bu blwyddyn ers i'r ymgynghoriad ddod i ben, ac y bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i adolygu a recriwtio nifer sylweddol o brentisiaid newydd i fframweithiau adolygedig. Byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael manylion pellach am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd ati i adolygu fframweithiau a darparu adnoddau ar gyfer gwneud hynny. Yn ôl profiad, bydd y dasg yn un sylweddol sy'n gofyn am wybodaeth ddwys. Mae angen cyflwyno fframweithiau ar frys a fydd yn rhoi'r mynediad gorau i'r farchnad lafur i bobl ifanc. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod yr ymarfer caffael ar gyfer y rhaglen newydd ar y trywydd iawn ar gyfer mis Mawrth 2021.

**Porthladdoedd a Meysydd Awyr: Brexit a Covid-19**


Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael y nodyn briffio a addawyd ar yr holl atebion arfaethedig ar gyfer porthladdoedd yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â rheoli traffig, ar ddiwedd cyfnod pontio'r UE ar 31 Rhagfyr 2020.

**Cynllun Brys ar gyfer Bysiau**

Cytunodd y Dirprwy Weinidog hefyd i rannu'r llythyr at weithredwyr bysiau yn nodi'r cytundeb yr ymrwymwyd iddo, ac mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth hon.

Diolch yn fawr eto am roi o'ch amser yn y Pwyllgor ac am eich ymatebion llawn a gonest i'n cwestiynau.

Cofion cynnes,



Russell George AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

BANC DATBLYGU CYMRU
DEVELOPMENT BANK OF WALES

Russell George AS

Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@senedd.wales

2 Rhagfyr 2020

Annwyl Gadeirydd,

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd, rydym wedi cymryd y cyfle i ystyried eich pwyntiau ac wedi amlinellu ein safbwyntiau isod:

Gan ddelio â phob un o'r pwyntiau yn eu tro:

***Dadansoddiad o swyddi***

Ers sefydlu Banc Datblygu Cymru, rydym wedi ceisio mesur effaith ein gweithgareddau buddsoddi yn gywir. Mae dangosyddion perfformiad yn gysylltiedig â phob cronfa a ddarparwn a chaiff y rhain eu diffinio ar ddechrau'r gronfa, gyda'r rhanddeiliaid yn pennu sut i adrodd arnynt. O ran data cyflogau, mae hyn wedi bod yn un o ofynion hirdymor y cronfeydd a gefnogir gan yr UE ac rydym wedi ymestyn y dull adrodd hwn yn ddiweddar er mwyn sicrhau ei fod yn cwmpasu pob buddsoddiad. Gan edrych ar y cronfeydd buddsoddi nad ydynt yn ymwneud ag eiddo, llwyddodd ein perfformiad o ran swyddi i barhau i dyfu tuag at y targed pum mlynedd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 mewn perthynas â'r ddwy agwedd hyn.


**Development Bank of Wales Plc**
Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at www.developmentbank.wales



Development Bank of Wales Plc - Registered in England and Wales under number 4055414 at Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL.




Er ei fod yn wir i ddweud na allwn gyfuno rhywedd a rhaniad rhywedd, rydym yn mesur ansawdd y swyddi a grëwyd o ran cyflog ac awgryma ein data diweddaraf fod 50% o'r swyddi cyfwerth ag amser llawn mewn busnesau sy'n cael cymorth drwy fuddsoddiad gan Fanc Datblygu Cymru yn ennill cyflogau canolrifol i uchel.

Un maes yr ydym yn canolbwyntio arno yw monitro'r nifer sy'n manteisio ar ein cynnyrch a'n gwasanaethau ar sail amrywiaeth yr entrepreneuriaid ac rydym yn monitro hyn ar ran y cyfarwyddwyr. Dengys data fod 29% yn fenywod a 3% yn BAME.

Mae'n werth nodi bod tîm o Ysgol Fusnes Caerdydd wedi asesu effaith gweithgareddau Banc Datblygu Cymru ar Economi Cymru ym mriff chwarterol Dirnad Economi Cymru, gan ddod i'r casgliad canlynol:

*"Gellir cysylltu pob £1 filiwn o fuddsoddiad gan y Banc Datblygu ag oddeutu £2.3 miliwn o werth ychwanegol gros Cymru. Amcangyfrifir fod gwerth ychwanegol gros Cymru sy'n gysylltiedig ag 800 o'r swyddi a grëwyd o ganlyniad i fuddsoddiadau gan y Banc Datblygu yn werth bron i £30 miliwn. Amcangyfrifir fod gwerth ychwanegol gros Cymru sy'n gysylltiedig â'r cyfanswm o bron i 2,800 o swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd yn werth oddeutu £110 miliwn. Fodd bynnag, bydd y ffigur hwn yn cynyddu i fwy na £181 miliwn wrth ychwanegu effeithiau lluosydd. Dylid ystyried y ffigur hwn fel amcangyfrif cymedrol o'i effaith gan ei fod ond yn ymwneud ag effeithiau swyddi tymor byr a gwerth ychwanegol gros. Mae buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru yn debygol o gael effeithiau ehangach a hirdymor, ac nid yw'r dadansoddiad hwn yn eu cyfleu yn llawn, gan gynnwys er enghraifft effeithiau sy'n fwy anodd eu mesur o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant cwmni."*

Byddwn yn parhau i ymdrechu i ddarparu gwell dadansoddiad o'r holl ddata sydd ar gael yn unol â'r her o beidio â rhoi gormod o faich ar ein cwsmeriaid sy'n fusnesau bach.

***Ffynonellau Cyfalaf***

Bu'r tîm yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio deall anghenion cyllid y farchnad yn well yn sgil Brexit a Covid gan symud yn gyflym i roi sylw i'r ddau drwy greu Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru a Chynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru, er mwyn gallu rhoi sylw i'r ddwy her yn yr un modd. Rydym hefyd yn gweithio ar gynlluniau i ddod o hyd i atebion cyllid hirdymor a byddwn yn fodlon darparu manylion am y rhain i'r Pwyllgor mewn pwyllgorau craffu yn y dyfodol.

***Lliniaru risg a chael gwerth am arian yn ystod Covid***

Yn ystod achlysur lansio Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru, roeddem yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod angen y cyllid hwn ar fyrder yn ogystal â'r angen i sicrhau'r cyllid yn y ffordd orau. Nodwn y cais gan y pwyllgor i ddarparu manylion pellach yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

***Ailgyllido benthyciad Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru***

Fel y crybwyllwyd yng ngwrandawiad y Pwyllgor, pan lansiodd y British Business Bank ddull gwarantu y Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn Sgil y Coronafeirws, nid oedd yn amlwg i Fanc Datblygu Cymru na'r British Busines Bank a fyddai sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus yn gymwys i gael y warant. Maes o law, cadarnhaodd y Trysorydd wrth nifer o ymgeiswyr tebyg, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, nad oedd y warant gyhoeddus wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio i yswirio cyllid cyhoeddus. Mae'n bosibl y gall benthyciwr Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn Sgil y Coronafeirws ail-gyllido benthyciadau Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru ar sail unigol ac mae nifer bach o fusnesau a gafodd gymorth gan Gynllun Cymru yn wreiddiol eisoes wedi manteisio ar y cyfle i ad-dalu ein benthyciad pan fo benthyciad amgen ar gael. Rydym yn sgwrsio'n barhaus â phrif fenthycwyr yn y sector preifat i hyrwyddo'r trefniant hwn, pan fo'n briodol. Nid yw hyn yn rhywbeth y gallwn ei wneud ar ein pen ein hunain, felly penderfyniad y benthyciwr yn llwyr yw p'un a yw hyn yn rhywbeth y mae am ei ystyried ai peidio.

Mae croeso i chi gysylltu â ni eto os hoffech ragor o wybodaeth neu os bydd gennych unrhyw sylwadau eraill yn sgil y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,



**Giles Thorley**

**Prif Weithredwr**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon